OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3708 (Cy.304)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *15 Tachwedd 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ionawr 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 218(7) a 232(5) a (6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac adrannau 544 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**2**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad(**3**).

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2002.

(2) Maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

**2.** Diwygir Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989(**4**)) fel a ganlyn —

(a) yn rheoliad 4(1)(a) yn lle'r geiriau “, a special school not so maintained or a grant-maintained school” rhowch y geiriau “or a special school not so maintained”; a

(b) diddymir rheoliad 8.

(**1**) 1988 p.40. Diwygiwyd adran 218(7) gan Ddeddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 38, Rhan I. Diwygiwyd adran 232(6) gan adran 14(4) o Ddeddf Addysg 1994 (p.30).

(**2**) 1996 p. 56; diwygiwyd adran 544 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), Atodlen 30, paragraff 160. I gael y diffiniad o “regulations” *gweler* adran 579(1).

(**3**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**4**) O.S. 1989/351, fel y'i diwygiwyd mewn perthynas â Lloegr gan O.S. 2001/692. Mae'r Rheoliadau yn parhau i fod yn effeithiol (mewn perthynas â Chymru) yn rhinwedd paragraff 1 o Atodlen 39 i Ddeddf Addysg 1996.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*John Marek*
15 Tachwedd 2001 Dirpwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 ("Rheoliadau 1989") mewn perthynas â Chymru.

Diwygir *Rheoliad 4* o Reoliadau 1989 er mwyn tynnu'r cyfeiriad at ysgol a gynhelir â grant (sef categori o ysgol nad yw'n bod mwyach).

Diddymir *Rheoliad 8* fel nad oes gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mwyach gymeradwyo darparu tir ac adeiladau newydd sy'n golygu gwaith adeiladu neu newidiadau i dir ac adeiladau presennol mewn ysgol, sefydliad addysg bellach neu uwch neu hostel ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r diddymiad yn tynnu'r angen am gymeradwyaeth o dan y Rheoliadau yn unig ac nid yr angen am unrhyw gymeradwyaeth neu gydsyniad arall o dan unrhyw ddeddfiad arall.

Gwnaed diwygiadau tebyg ar gyfer Lloegr gan Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) (Diwygio) (Lloegr) 2001 (O.S. 2001/692).